# CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

**()**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **The Mayor:** | **Councillor S Jones** |
| **The Deputy Mayor:** | **Councillor J Warman** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, S.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, J.Warman, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, N.Pearce a/ac A.Thomas |

---

1. **Ethol maer 2021/2022**

Ar gynnig y Cynghorydd S Reynolds, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Paddison,

**PENDERFYNWYD:** Y bydd y Cynghorydd John Warman yn cael ei ethol yn Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/22 yn unol ag Adran 23 (1)o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Llofnododd y Cynghorydd John Warman Iw'r Rheithgor a roddwyd gan y Prif Weithredwr a chyflwynodd y Datganiad Derbyn Swydd swyddogol.

Roedd y Prif Weithredwr yn falch o gyhoeddi mai'r Faeres fyddai Mrs Lesley Warman a Chaplan y Maer fyddai Canon Lynda Newman o Fywoliaeth Reithorol Castell-nedd.

Gohiriwyd y cyfarfod am ychydig er mwyn i'r Maer gymryd ei sedd fel Cadeirydd y Cyngor.

## 2. Penodi Dirprwy Faer ar gyfer 2021/2022

Ar gynnig y Cynghorydd Alun Llewelyn a eiliwyd gan y Cynghorydd Carolyn Edwards,

**PENDERFYNWYD:** Y bydd y Cynghorydd Del Morgan yn cael ei benodi'n Ddirprwy Faer ar gyfer Blwyddyn ddinesig 2021/2022 yn unol ag Adran 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Gwnaeth y Cynghorydd Del Morgan Ddatganiad Derbyn Swydd ffurfiol.

Roedd y Prif Weithredwr yn falch o gyhoeddi mai Mrs Jemma Jones fydd y Dirprwy Faeres ar gyfer y flwyddyn ddinesig.

## 4. Penodi Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2021/22

**PENDERFYNWYD:**

Ethol y Cynghorydd E V Latham yn Arweinydd y Cyngor a bod y Cynghorydd L G Jones yn cael ei ethol yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn Ddinesig 2021/22 yn unol â Rhan 4, Adran 1(1.1) o'r Cyfansoddiad

## 5. Materion Gweinyddu 2021/2022 (Dogfennau i'w Dilyn)

Ystyriodd y cyngor y gwahanol faterion gweinyddol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1) Bod y Fframwaith Polisi a Chyllideb fel y'i cynhwysir yn **Atodiad A** i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael ei gymeradwyo.

2) Bod y trefniadau Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021/22 mewn perthynas â maint y Cabinet; penodiad Aelodau iddo; penodiad Byrddau'r Cabinet; a dyraniad Portffolios y Cabinet fel y'u cynhwysir yn **Atodiad B** i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael eu cymeradwyo;

3) Bod dosraniad y seddi ymhlith cyfansoddiad y Grwpiau Gwleidyddol ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2021/22 fel y'i nodir yn **Atodiad C** i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael ei gadarnhau (ond PENDERFYNIR yn unfrydol, yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, na ddylai gofynion cydbwysedd gwleidyddol Adrannau 15 ac 16 fod yn berthnasol i'r Panel Apeliadau, y Pwyllgor Safonau a'r Is-bwyllgor Deddfau Trwyddedu a Hapchwarae);

4) Bod strwythur arfaethedig y pum Pwyllgor Craffu a'u swyddogaethau a dosraniad cadeiryddion pwyllgorau craffu ymhlith y Grwpiau Gwleidyddol a gyfansoddwyd a phenodiadau'r aelodau i bob Pwyllgor Craffu yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol ynghyd ag ail-benodi'r aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Craffu Sgiliau a Diwylliant Addysg fel y'u nodir yn **Atodiad C a Ch** yn cael eu cadarnhau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021/22

5) Bod y cynigion mewn perthynas â threfniadau eraill y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021/22 yn cael eu cymeradwyo, ynghyd â phenodi Aelodau iddo, fel y'i nodir yn **Atodiad D** i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Cymeradwyo bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn dod o blith aelodau'r gwrthbleidiau yn y pwyllgor ac y bydd y Pwyllgor Archwilio'n penderfynu ar hyn, ac mai'r Is-bwyllgor Trwyddedu fydd yn penderfynu ar Gadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

   Bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y'i cynhwysir yn **Atodiad Dd** i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael ei gymeradwyo.

6) Bod y bwriad i benodi Aelodau i Grwpiau Aelodau/Swyddogion eraill fel y nodir yn **Atodiad E** i'r adroddiad a ddosbarthwyd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021/22 yn cael ei gymeradwyo.

7) Bod y penodiad arfaethedig (ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet) Aelodau/Swyddogion i Gyd-bwyllgorau, Cyrff Cyhoeddus Allanol a Chyrff Cyhoeddus Eraill ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021/22 fel y nodir yn **Atodiad F** yn cael ei nodi.

8) Bod Cylch ac Amserlen y Pwyllgor ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2021/221 (gan gynnwys Seminarau Aelodau) a nodir yn **Atodiad Ff** yn cael eu cymeradwyo.

9) Bod dosbarthiad y Cyflogau Uwch sydd ar gael fel y'u cynhwysir yn **Atodiad G** yn cael ei gymeradwyo

10) Bod y strwythur ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a nodir yn **Atodiad .** yn cael ei gymeradwyo

11) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael awdurdod dirprwyedig i ddiwygio'r cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a amlygwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CHAIRPERSON**